# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 21 IONAWR 2019

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Dr Einir Young (Cadeirydd) a Mr David Wareing.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Aelod Pwyllgor Cymuned:**- Mr Richard Parry Hughes

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2018 fel rhai cywir.

## 5. COFRESTRU BUDDIANNAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i’r pwyllgor am ei farn ar y broses o gofrestru buddiannau ac ar y Ffurflen Cofrestru Buddiannau oedd wedi ei hatodi i’r adroddiad.

**PENDERFYNWYD bod y pwyllgor yn gefnogol i’r broses o gofrestru buddiannau ac o’r farn bod y Ffurflen Cofrestru Buddiannau yn gynhwysfawr ac yn addas i bwrpas.**

## 6. CYFARFODYDD PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn ceisio barn y pwyllgor ar amlder a nifer cyfarfodydd y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD cynnal 3 cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau yn flynyddol, wedi eu hamseru i gyd-fynd ag amserlen y Cyngor, ond gan gadw’r hawl i alw cyfarfod brys petai angen, e.e. i ystyried ceisiadau am oddefebau.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Sylwyd bod mwyafrif y cwynion yn deillio o gynghorau cymuned a thref a chadarnhawyd bod y gwaith o drefnu hyfforddiant ar gyfer y cynghorau hynny ar droed, gyda'r bwriad o gychwyn ar y sesiynau yn y gwanwyn.
- Holwyd a fyddai'n briodol i un o bwyllgorau craffu'r Cyngor edrych ar strwythur y cynghorau cymuned a thref i weld oes modd sefydlu trefn o glercod mwy proffesiynol llawn amser yn gyfrifol am fwy nag un cyngor. Mewn ymateb, eglurwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth ymchwil i rôl a swyddogaethau cynghorau cymuned a thref a'u potensial i'r dyfodol. Croesawyd y ffaith bod y Llywodraeth yn edrych ar hyn gan fod llawer o glercod rhan amser yn gweithio dan bwysau sylweddol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL DYFARNU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu adroddiad blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2017/18.

Tynnwyd sylw'n benodol at y materion isod yn yr adroddiad:-

- Mai'r un themâu sydd wedi codi yn yr achosion a glywyd gan y Panel Dyfarnu dros y flwyddyn ddiwethaf, sef aelodau etholedig yn bwlio ac yn aflonyddu ar swyddogion cynghorau ac yn methu dangos parch ac ystyriaeth.
- Yr angen i bwyso a mesur yn ofalus hawl hanfodol cynrychiolwyr mewn democratiaeth i fynegi eu barn a hawl pobl eraill i beidio â chael eu bwlio neu eu cam-drin yn y gweithle.
- Bod y prif faterion sy'n codi yn ymwneud â diffyg parch a methu datgan buddiant.

Mynegwyd tristwch ynglŷn â'r bwlio a'r diffyg parch sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad a phwysleisiwyd pwysigrwydd herio, nid pardduo. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd peidio tanseilio hyder cyhoeddus drwy gam ddefnyddio ieithwedd, yn arbennig wrth wneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

**CADEIRYDD**